

Cyfarfod Misol / Monthly Meeting

Nos Lun 17eg Mehefin, 2024 / Monday, 17th June, 2024

Festri Tabernacle Fetry, Pencader

8.00 yh / pm

Presennol / Present: M. Griffiths, G. Jones, A. Davies, H. Lewis, J. Jones, A. James, S. Mason, D. Griffiths, W. Cole; Anita Evans (Clerc/Clerk); PCSO Anwen Davies.

Ymddiheuriadau / Apologies: D. Davies, V. Davies, R. Thomas, Cynghorydd Sir / County Councillor L. Evans

<p>1. Croeso: Cadeiriwyd y cyfarfod gan M. Griffiths. Croesawodd bawb a nodwyd ymddiheuriadau.</p>	<p>1. Welcome: Meeting chaired by M. Griffiths, who welcomed everyone; apologies and absences noted.</p>
<p>2. Datgan diddordeb: neb.</p>	<p>2. Declaration of interest: none.</p>
<p>3. Adroddiad yr Heddlu – roedd SCCH Anwen Davies (swyddog cefnogi cymunedol yr heddlu) yn bresennol a diolchwyd iddi am anfon y data misol i'r Cyngor. Nodwyd nifer o ddigwyddiadau troseddol yn ystod yr wythnosau olaf. Dywedodd y Cynghorydd A. Davies fod fan byrger yn dod i dir y Pafiliwn unwaith yr wythnos, ac yn anffodus mae plant yn cardota am arian oddi wrth unigolion, sydd yn fater pryderus iawn. Addawodd y swyddog i ymchwilio. Diolchwyd iddi am fynychu'r cyfarfod.</p>	<p>3. Report from Police - PCSO Anwen Davies was present and was thanked for the monthly data emailed to the Council. Several incidents during recent weeks were noted. Cllr. A. Davies advised a burger van is attending the Pavilion car park once a week, and unfortunately children are begging money from members of the public, which is a matter of great concern. The PCSO will investigate. The officer's attendance at the meeting was acknowledged.</p>
<p>4. Cofnodion Mis Mai - derbyniwyd fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan D. Griffiths, eiliwyd gan A. Davies.</p>	<p>4. Minutes of May Meeting – accepted as correct record. Proposed by D. Griffiths, seconded by A. Davies.</p>
<p>5. Materion y Clerc: (i) <u>Cyngor Sir Gâr</u> – priffyrdd—wedi anfon rhestr o broblemau at yr Adran Briffyrdd - dim ymateb. Mae D.T. Williams wedi ymddeol, ac mae'r ohebiaeth i fynd at Marc Davies o hyn ymlaen. <u>Cyfleusterau</u> - nid ydy C. Evans wedi ymateb i lythyr anfonwyd gan y Clerc 17.04.2024 ynglyn â thoiledau Alltwalis. Clerc yn dweud fod cyflwr toiled Alltwalis yn wael iawn. Yn dilyn trafodaeth, cynigiodd A. Davies gan fod y Cyngor Cymuned wedi ceisio mabwysyadau ac ail-agor toiled Pencader ers dros pum mlynedd erbyn hyn, a bod ymateb y Cyngor Sir drwy gydol yr amser wedi bod yn anffoddhaol iawn ac yn siomedig, y dylid anfon llythyr oddi wrth y Cyngor Cymuned i ddweud os nad yw'r holl broblemau a'r materion dan sylw yn cael eu datrys o fewn trideg niwrnod, ni fydd y Cyngor Cymuned bellach yn barod i fwrw ymlaen gyda</p>	<p>5. Clerk Matters: (i) <u>Carmarthenshire County Council</u> – no responses from Highways Department. D.T. Williams has retired, and all correspondence from now on should be sent to Marc Davies. <u>Toilets</u> – no response from C. Evans, following a letter sent by the Clerk 17.04.2024 regarding problems at Alltwalis Conveniences. Clerk states that the condition of Alltwalis toilet at present is very poor. Following discussion, it was proposed by A. Davies that as the Community Council had now been trying to adopt and re-open both Alltwalis and Pencader Conveniences for over five years, and the response from the County Council having been disappointing and most unsatisfactory throughout this time, a letter should be sent to the County Council stating that if all queries and problems in question are not addressed within thirty days, the Council will no longer be prepared to proceed</p>

<p>mabwysiadu'r ddwy safle. Eiliodd H. Lewis ac roedd pawb yn gytun.</p> <p>(ii) <u>Cornel Chwarae</u>: Swydd Gofalwr – trafodir ymhellach yng nghyfarfod Mis Gorffennaf. Sbwriel yn y Cornel Chwarae - wedi i reolau newydd ddod i rym, gofynnwn i H. Jones fynd â'r sbwriel oddi ar y safle, er mwyn cadw'r bin yn ei le. Cynigiwyd hyn gan H. Lewis, ac eiliodd W. Cole.</p> <p>(iii) <u>Mynwent y Plwyf, Pencader</u> Adolygu ffioedd - trafod mis Gorffennaf. Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Gwendraeth Tarmac y byddant yn ceisio gwneud y gwaith ym mis Gorffennaf.</p> <p>(iv) <u>Cafnau Blodau</u> – mae Farmyard Nurseries wedi plannu'r cafnau ac mae'r bobl arferol wedi cytuno i ddwrhau - diolch yn fawr iddynt. Mae angen gosod dwy fricen o dan y cafn blodau ar Sgwâr Llanfihangel-ar-arth.</p> <p>v) <u>Cyfarfodydd Hybrid</u> – yn dilyn ein trafodaethau yng nghyfarfod Mis Mai, mae'r system "tylluan" wedi ei phrynu erbyn hyn. Diolch i H. Lewis am weithredu ar hyn ar ran y Cyngor Cymuned a nodwyd yr angen i wneud trefniadau i'w had-dalu am gost yr adnodd hwn.</p> <p>vi) <u>Diffibrilwyr</u> – wedi derbyn yr adroddiad diweddaraf oddi wrth A. Munday mae angen gofyn ynglyn â'r sefyllfa bod angen arwyddion i nodi lleoliad pob diffibrilydd yn glir.</p> <p>(vii) Glanhau <u>Cysgodfeydd Bysiau</u> – nid oes ateb wedi ei dderbyn hyd yn hyn oddi wrth Core Cleaning Services ynglyn â'r ddarpariaeth yswiriant.</p>	<p>any further with adopting both sites. H. Lewis seconded and all agreed.</p> <p>(ii) <u>Play Area</u>: Post of Caretaker - will be further discussed at the meeting in July. Rubbish at the Play Corner – following the implementation of new regulations, H. Jones will be asked to clear the rubbish from the site, so that the bin can remain. H. Lewis proposed, W. Cole seconded.</p> <p>(iii) <u>Parish Cemetery, Pencader</u>. Revision of fees in July. Gwendraeth Tarmac have advised of their intention to proceed and complete the work in the Parish Cemetery in July.</p> <p>(iv) <u>Flower troughs</u> – Farmyard Nurseries have now completed the planting, and the usual Parishioners have agreed to water the planters. Their assistance is acknowledged. Two bricks need to be placed under the planter on Llanfihangel-ar-arth Square.</p> <p>(v) <u>Hybrid Meetings</u> – following discussions at last month's meeting, the "Owl" system has now been purchased. H. Lewis was thanked for pursuing this matter on behalf of the Community Council. Arrangements will now be made to reimburse the cost.</p> <p>vi) <u>Defibrillators</u>—following receipt of the recent report from A. Munday, enquiries need to be made regarding the situation re: signage to clearly denote the location of each defibrillator.</p> <p>(vii) <u>Bus Stop Cleaning</u> – no response has been received to date regarding the insurance cover in place from Core Clean Services.</p>
<p>6. Ariannol: Rydyn ni nawr yn gallu talu biliau ar-lein - diolch i H. Lewis am drefnu.</p> <p><u>Biliau i'w talu</u> – Ysiwriant Zurich: £1,177.33; cyflogau: £1,761; Un Llais Cymru - aelodaeth: £418.00; Clerc costau: postio/ffôn 1af Mai hyd 6ed Mehefin: £17.75; E. Jones - Cyfrifydd: £360.00. Cytunwyd i dalu'r uchod: cynigiwyd gan H. Lewis, eiliwyd gan A. James.</p> <p>Derbyniwyd cofnodion Cyfarfod yr Is-Bwyllgor Cyllid ar 10ed Mehefin 2024 yn gofnod cywir: cynigiwyd gan H. Lewis, eiliwyd gan A. Davies.</p>	<p>6. Financial: We can now operate online banking—thanks to H. Lewis for organising.</p> <p><u>Bills to pay:</u> Zurich Insurance: £1,177.33; wages: £1,761; One Voice Wales - membership: £418.00; Clerc costs: postages/ telephone from 1st May to 6th June: £17.75; E. Jones accountant: £360.00. It was agreed to pay the above: proposed by H. Lewis, seconded by A. James.</p> <p>The minutes of the Finance Sub-Committee Meeting held on of 10th June, 2024 were accepted as correct - proposed by H. Lewis, seconded by A. Davies.</p>

<p>Cynhelir cyfarfod nesaf yr Is-Bwyllgor Cyllid ar 10ed Gorffennaf am 7.30yh.</p>	<p>The next meeting of the Finance Sub-Committee will be held on 10th July at 7.30pm.</p>
<p>7. Cynllunio: Rivendell Alltwalis - gwybodaeth wedi e-bostio i aelodau yr Is-Bwyllgor Cynllunio - dim gwrthwynebiad.</p>	<p>7. Planning: Rivendell, Alltwalis - information previously e-mailed to members of Planning Sub-Committee. No objections.</p>
<p>8. Audit 2022-2023: Nodwyd bod yr Adroddiad Archwiliad 2022-2023 a dderbyniwyd ar 18.04.2024 i'w osod ar safle we'r Cyngor. Nodwyd hefyd bod "Hysbysiad am Gwblhau Archwiliad ac am yr Hawl i Arolygu'r Cofnod Blynyddol am y Flwyddyn yn Gorffen 31.03.2023" eisoes wedi ei osod ar y safle we.</p>	<p>8. Audit 2022-2023: It was noted that the Audit Report for 2022-2023 received on 18th April 2024 will now be posted on the Council's website. It was also noted that the "Notice of Conclusion of Audit and Right to Inspect the Annual Return for the Year Ended 31.03.2023" had already been placed on the website.</p>
<p>9. 2023-2024 Audit: Cymeradwywyd y Ffurflen Flynyddol ar gyfer 2023-2024 gan y Cyngor. Cynigiwyd gan A. James; eiliwyd gan J. Jones, a chytunwyd gan bawb oedd yn bresennol. Mae'r Cyngor yn cydnabod gwaith yr Archwilydd Mewnol, Mr. Eryl Jones (Cyfrifydd), Llanybydder. Yn unol â gofynion Archwilio Cymru, nodwyd bod yr Hysbysiad Archwilio (o Benodi'r Dyddiad ar Gyfer Arfer Hawliau Etholwyr) eisoes wedi osod ar hysbysfyrdau a safle we'r Cyngor. Bydd y Ffurflen Flynyddol ar gyfer 2023-2024, ynghyd â'r ddogfennaeth y gofynnir amdano, yn cael eu hanfon i Archwilio Cymru cyn y 5ed Gorffennaf.</p>	<p>9. 2023-2024 Audit: The Annual Return for 2023-2024 was approved by the Council. Proposed by A. James; seconded by J. Jones and agreed by all present. The Council acknowledges the work of the Internal Auditor, Mr. Eryl Jones (Accountant), Llanybyther. It was noted, in accordance with Audit Wales requirements, that the Audit Notice (of Appointment of the Date for the Exercise of Electors' Rights) has been placed on the Council's noticeboards and website. The Annual Return for 2023-2024, along with all documentation requested, will now be submitted to Audit Wales prior to 5th July 2024.</p>
<p>10. Dogfennaeth: i) Lwfansau Cyngorwyr - Trefniadau Gweithio Gartref - derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Yn unol â'r argymhellion, rhannwyd braslun o'r wybodaeth a'r amodau mewn nodyn oddi wrth y Clerc i'r Cyngorwyr. ii) Adroddiad Blynyddol 2023-2024 – anelir i'w gwblhau ar gyfer cyfarfod Mis Gorffennaf. iii) Polisiau Grantiau a Chyfraniadau Ariannol – gwnaeth M. Griffiths gynghori'r Cyngor bod angen adolygu'r Polisi. Bwriedir cyflwyno polisi diwygiedig yn y cyfarfod nesaf ym Mis Gorffennaf. iv) Cynllun Bioamrywiaeth – adroddwyd bod cynllun newydd yn cael ei baratoi. Soniodd M. Griffiths ei fod wedi mynchu sesiwn arlein gydag Un Llais Cymru lle rhannwyd adnoddau newydd fydd o gymorth i lunio'r Cynllun. Tynnodd sylw'r Cyngor at sesiynau hyfforddiant newydd sydd yn ymwneud â Bioamrywiaeth yn cael eu cynnig gan Un Llais Cymru a'i</p>	<p>10. Documentation: i) Councillors' Allowances - Homeworking arrangements – information had been received from the Independent Remuneration Panel for Wales. In accordance with recommendations, the Clerk provided a brief note outlining the conditions to all Councillors. ii) Annual Report 2023-2024 – it is anticipated this will be completed by the monthly meeting in July. iii) Grants and Donations Policy - M. Griffiths advised the Council of the need to review the Policy. A draft revised policy will be presented at the next meeting in July. iv) Biodiversity Plan – it was reported that a plan was currently being prepared. M. Griffiths stated he had attended an online session organised by One Voice Wales where new resources which will assist in preparing the Plan were shared. He also drew the Council's attention to new training sessions re: Biodiversity which are now being offered by One Voice</p>

<p>fod wedi trefnu i fynychu'r sesiynau hyn ym Mis Gorffennaf.</p> <p>(v) Canllawiau Gweithio'n Ddigidol (Un Llais Cymru) - Derbyniwyd y ddwy ddogfen ganlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Dogfen Gwybodaeth Digidol: Windows 10 – Cefnogaeth yn Dod i Ben; - Cyfarfodydd Aml-leoliad a Hybrid (Mai 2024). <p>Gwnaeth y Cadeirydd olrhain gynnwys y dogfennau uchod, yr oblygiadau i'r Cyngor a pha gamau gweithredu oedd eu hangen.</p> <p>Derbyniwyd yr holl wybodaeth a'r ddogfennaeth uchod ar gynnig H. Lewis, gydag A. Davies yn eilio a phawb yn gytun.</p>	<p>Wales and has arranged to attend these sessions in July.</p> <p>v) Guidance on Working Digitally (One Voice Wales) – Two documents were received:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Digital Information Document: Windows 10 – End of Support; - Multi-Location and Hybrid Meetings (May 2024). <p>The Chairman outlined the contents of the above documents, their implications for the Council and what action remained to be undertaken.</p> <p>It was proposed by H. Lewis, seconded by A. Davies and agreed by all Councillors present that the above documents and information be accepted.</p>
<p>11. Gohebiaeth: mae'r canlynol wedi eu e-bostio i'r Cyngorwyr:</p> <p>i) Cyngor Sir Gâr—cau ffyrdd; newyddion diweddaraf y Cyngor.</p> <p>ii) Un Llais Cymru:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Cynhadledd Arfer Arloesol b) Hyfforddiant Bioamrywiaeth c) Canllawiau Gweithio'n Ddigidol ch) Recriwtio a Chadw Clercod. <p>iii) Senedd Cymru: llythyr oddi wrth Ken Skates ynglyn â'r rheolau 20 milltir yr awr.</p>	<p>11. Correspondence: the following have been e-mailed to Councillors:</p> <p>i) Carmarthenshire County Council—road closures; latest news.</p> <p>ii) One Voice Wales:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Innovative Practice Conference b) Biodiversity Training c) Digital Guidance d) Recruitment, Induction and Retention of Clerks. <p>iii) Senedd Cymru: letter from Ken Skates re: 20 miles per hour regulations.</p>
<p>12) Unrhyw Fater Arall (gwybodaeth oddi wrth Gynghorwyr/Clerc yn unig):</p> <p>Clerc: arwydd cyn troad Dryslwyn o Bencader yn wynebu'r cae; coeden ar glos Pwll Dŵr yn amharu ar welediad gyrrwyr; braf i weld arwydd “dim lorïau” wedi ei ail osod ar ben hewl Glantweli Fach.</p> <p>H. Lewis - angen ail feddwl am pa fath glawdd i'w blannu yn lle'r coed sydd o gwmpas yr Ardd Goffa ym Mynwent Pencader.</p> <p>A. Davies - Dyfed Alarms heb fod yn gosod sgrîn newydd i'r CCTV yn y Cyfleusterau ym Mhencader a bod angen eu hatgoffa i wneud; angen chwynnu o flaen y safle.</p> <p>G. Jones - draen wedi ei hagar o flaen Bwlchyrnonen ac ar draws y ffordd, ac wedi ei gadael.</p> <p>A. James – llawer o dyllau difrifol ar y ffordd o Maesybwllch i Rhiwlwyd.</p>	<p>12) Any Other Business (information from Councillors and Clerc only):</p> <p>Clerc: sign for left turn outside Pencader for Dryslwyn is facing the field; tree on Pwll Dŵr forecourt is hampering drivers' visibility; the “no lorries” sign on the junction for Glantweli Fach has been re-erected.</p> <p>H. Lewis: there is a need to reconsider what to plant in place of the trees currently surrounding the Remembrance Garden at Pencader Cemetery.</p> <p>A. Davies: Dyfed Alarms to be reminded about the CCTV replacement screen at the Pencader Conveniences; weeding required at the forecourt of the site.</p> <p>G. Jones: a drain at the front of Bwlchyrnonen, Pencader and across the road has been left opened.</p> <p>A. James: several deep potholes on the road between Maesybwllch and Rhiwlwyd, Dolgran.</p>

